

Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-2031

DRAFFT



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Ein gweledigaeth deg mlynedd

- Wrth ddilyn nod Sir Gaerfyrddin ddwyieithog, rydym am sicrhau y bydd Sir Gaerfyrddin yn Sir lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw, ffyniannus a bywiog mewn cymunedau dwyieithog, cryf a chynaliadwy.
- Dymunwn sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill ac sy'n gallu defnyddio eu hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, ffrindiau, cymdogion ac yn y gweithle.
- Rydym yn anelu bod Sir Gaerfyrddin, drwy'r cynllun hwn, yn cyfrannu'n sylweddol at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Amcanion Allweddol

Byddwn yn ymdrechu i:

- Barhau i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a hyrwyddo amlieithrwydd yn weithredol
- Sicrhau bod addysg yn Sir Gaerfyrddin yn rhoi cyfle i bob dysgwr fod wedi caffael dwy 'iaith gyntaf' erbyn 11 oed h.y. bod disgyblion mor rhugl a hyderus ddwyieithog â phosibl erbyn diwedd addysg gynradd, sy'n cael ei barhau a'i ddatblygu ymhellach drwy addysg uwchradd
- Wrth sicrhau bod mwy o blant yn cael y cyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog, yr opsiwn a ffafir ac a argymhellir yw addysg drochi yn y Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai amgylchiadau, gall opsiynau ymarferol eraill sy'n hyrwyddo'r strategaeth gael eu hystyried.
- Gall cyflwyno addysg drochi yn y blynyddoedd cynnar sicrhau bod disgyblion eisoes yn ddwyieithog erbyn eu bod yn 7 oed, gyda chyflwyno elfennau o drydedd iaith fyd-eang erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen - wrth geisio llythrennedd deuol a thriphlyg, yn enwedig o ran llafaredd
- Codi'r bar mewn dysgu ail iaith, i drin y Gymraeg fel un continwwm dysgu neu ar un llwybr dilyniant
- Er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r amcanion allweddol, symud pob ysgol ar hyd y continwwm iaith, gyda lefel yr her yn briodol i'w cyd-destun cychwynnol, ond ar gyfradd ddatblygu sy'n bwrpasol a phendant
- Mabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin â system categoreiddio ieithyddol ysgolion, fel y gall cynnydd ysgolion ar hyd y continwwm gael ei osod mewn cyd-destun priodol, ei ddeall, ei gefnogi a'i fesur yn well
- Trefnu bod addysg Cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi ac, yn y pen draw, o fewn eu dalgylchoedd eu hunain
- Ymestyn ystod a chyrhaeddiad daearyddol y Canolfannau Iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid, hybu hyder ieithyddol a dysgwyr mwy abl a thalentog mewn grwpiau blwyddyn Gynradd ac Uwchradd, drwy agor mwy o ganolfannau wrth i gyllid ac amgylchiadau ganiatáu
- Datblygu dysgu digidol ar-lein a hyfforddiant iaith yn ogystal â defnyddio llwyfannau technoleg gwybodaeth newydd
- Creu llwyfan canolog i rannu adnoddau Cymraeg ar gyfer disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol ynghyd ag asesiadau safonedig yn y Gymraeg



Cysylltiadau â Pholisïau Eraill Llywodraeth Cymru

Ail-ddynodi ysgolion

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r categorïau iaith genedlaethol newydd, arfaethedig, i ysgolion wedi'u cwblhau. Gan daflu golwg ymlaen, bydd y categorïau a fabwysiedir ar gyfer gwahanol ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu strategaeth CSGA a disgwyliadau rhesymol i symud pob ysgol ar hyd y continwwm iaith.



Ar yr adeg briodol, byddwn yn mudo ein hysgolion o'u dynodiadau presennol i'r system gategoreiddio newydd:

- Ar sail nad yw'n **niweidiol i'r** ddarpariaeth ddwyieithog bresennol
- Mewn modd sy'n rhoi taith ddigon heriol a datblygiadol i ysgolion ar hyd y continwwm iaith
- Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn trafod ac yn cytuno ar y categori newydd a neilltuwyd gyda phob ysgol, cyn i'r categori gael ei gadarnhau gan bob Corff Llywodraethu

Derbyniodd Bil Cwricwlwm 2021 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021

- Mandadu leithoedd - mae'r Gymraeg wedi'i mandadu o 3 oed, tra bo'r Saesneg wedi'i mandadu o 7 mlwydd oed. Mae hyn yn caniatáu:
 - Y dull addysg drochi Cymraeg sefydledig i barhau heb rwystr
 - Ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i gyflwyno Saesneg o 3 oed
- Bydd hyn yn golygu y bydd gan ysgolion nad ydynt yn defnyddio addysgeg drochi Cymraeg gyfrifoldeb i gyflwyno'r Gymraeg o 3/4 oed ymlaen

Cwricwlwm Newydd i Gymru

- Mae'r maes dysgu ieithoedd a chyfathrebu yn hyrwyddo dwyieithrwydd, amlieithrwydd a lluosieithrwydd yn gryf

Strategaeth Ddrafft Llywodraeth Cymru- miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

- Mae'r nod cenedlaethol hwn yn parhau i fod yn un o amcanion polisi Llywodraeth y Senedd. Cynlluniwyd strategaeth CSGA degawd o hyd Sir Gaerfyrddin er sicrhau y bydd system addysg y Sir yn rhoi hwb i gyrraedd y nod hwn

Rhaglen Moderneiddio Addysg

- Bydd y Rhaglen Moderneiddio Addysg a'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg yn cael eu halinio. Bydd buddsoddi mewn ysgolion ac adeiladau newydd yn llawn ystyried nodau strategol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y ddegawd nesaf.
- Defnyddir buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru fel mater o drefn, a fuddsoddwyd er enghraifft wrth sefydlu Canolfan Iaith yn ardal Drefach, y disgwylir iddi agor yn 2021 fel adnodd i gefnogi'r Cynllun Strategol newydd

Ein Gweledigaeth ar gyfer CSGA 10-blwyddyn 2022-2032

Er ein bod yn cadw elfennau strategol o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg bresennol, byddwn hefyd yn datblygu darpariaeth ar hyd llinellau a grynhoir isod, drwy ddilyn deilliannau newydd a bennir gan Lywodraeth Cymru:



Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/ plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Ein nod yw darparu'r holl ddarpariaeth cyn-ysgol a gofal plant yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y cynllun 10 mlynedd.
- Mae ymrwymiad cryf i addysg drochi yn y Gymraeg yn gonglfaen allweddol ar gyfer y strategaeth hon
- Ystyried ystod oedran ysgolion ac, o bosibl, creu lle i ddarparu darpariaeth blynyddoedd cynnar iawn trwy gyfrwng y Gymraeg
- Parhau i fonitro'r galw mewn ardaloedd trefol
- Bydd ail-ddynodi pob ysgol yn hanfodol er mwyn gwella'r niferoedd mewn darpariaethau cyn-ysgol a gofal plant.
- Cefnogi ein hysgolion dwy ffrwd a throsiannol presennol gyda'r posibilrwydd o esblygu'n ysgolion Cymraeg
- Ystyried datblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwy ffrwd newydd, gan ddefnyddio'r gofod sydd ar gael pan yn berthnasol.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr blynyddoedd cynnar gan gynnwys Mudiad Meithrin i gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Byddwn yn parhau i gryfhau ein gwaith gyda Dechrau'n Deg a chyda tîm Dysgu Cymraeg Sir Gaerfyrddin.
- Byddwn yn gweithio gyda'r tîm derbyn i sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr, a'r diweddaraf, yn cael ei chynnwys yn y llyfryn Gwybodaeth i Rieni
- Byddwn yn cynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i sicrhau y gall rhieni a gofalwyr wneud penderfyniadau gwybodus ar ddewis ysgol ar gyfer eu plant

Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/ plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Yn ychwanegol at y cynigion a gafodd eu cynnwys o dan ganlyniad 1:

- Cefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen Cymraeg.
- Parhau i fonitro capasiti sbâr yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin yn rheolaidd a sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.
- Byddwn yn ystyried datblygiadau tai a'r economi a'i effaith ar leoedd mewn ysgolion, ac yn ehangu'r ddarpariaeth yn ôl y gofyn.
- Byddwn yn rhoi cymorth ac arweiniad i ysgolion drwy ein tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg ar sut i ymateb i ymholiadau gan rieni.
- Cyflenwi angen am hyfforddiant iaith ddwys i'r holl staff ar draws pob cyfnod allweddol yn ogystal â hyfforddiant sgiliau iaith bynciol
- Sicrhau profiadau cadarnhaol o ddysgu iaith i rieni a gwarcheidwaid i'w galluogi i gefnogi eu plant i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol ac i helpu i atgyfnerthu eu dysgu gartref.

Deiliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall



- Gweledigaeth Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin yw bod pob disgybl yn parhau i wella ei sgiliau iaith wrth drosglwyddo o un cam o'i addysg statudol i un arall.
- Cadw at y protocol dilyniant clir i gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol a sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r holl randdeiliaid
- Bydd materion pontio yn cael eu harwain gan leoliad priodol sy'n gyson â dawn a gallu'r dysgwr, sef:
 - Cynnig her addas at ddibenion sicrhau dilyniant ieithyddol
 - Wedi'i weithredu ar sail dim gwaethgiad ieithyddol h.y. mae angen parhau â lefelau blaenorol o addysgu a chaffael dwyieithog i'r cyfnod dysgu nesaf
- Byddwn yn cadw at y protocol sy'n amlinellu ein disgwyliadau y bydd dysgwyr sydd wedi dilyn y rhaglen iaith Gymraeg 1af (h.y. hyd at gyflwyno un continwmm Cymraeg) yn yr ysgol gynradd yn parhau gyda'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r cyfnod uwchradd.
- Rydym hefyd yn disgwyl y bydd yr holl ddysgwyr sydd wedi mynychu ysgolion cynradd a ddiffinnir fel rhai dwyieithog yn astudio o leiaf 3 (i ddechrau) o feysydd cwricwlaidd drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 er mwyn ymgorffori a datblygu eu cymhwysedd ieithyddol ymhellach
- Mae darpariaeth hwyrddyfodiaid yn hollbwysig. Rydym wedi buddsoddi mewn Canolfan Iaith newydd a fydd, o fis Medi 2021, yn darparu gwersi i hwyrddyfodiaid o'r sector Cynradd ac Uwchradd:
 - Sicrhau bod pob disgybl sy'n hwyrddyfodiaid i Sir Gaerfyrddin yn dod yn ddwyieithog drwy ddarparu addysg drochi – ar lefel gynradd ac uwchradd
 - Cynnig gloywi iaith (gwella/sgleinio iaith) i Hwyrddyfodiaid a dysgwyr brodorol ar adegau pontio hanfodol fel diwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ryngwyneb Cyfnod Allweddol 2/3.
 - Cyflwyno rhaglenni dal i fyny ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6/7 lle mae angen gwella sgiliau iaith er mwyn sicrhau pontio llyfn i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.
 - Darparu datblygiad proffesiynol i wella sgiliau athrawon a chefnogi staff yr ysgol i'w galluogi i addysgu'n ddwyieithog yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.
 - Hefyd, gwella sgiliau Cymraeg staff, yn enwedig y rhai ar daith continwmm iaith.
- Cefnogir y broses bontio gan:
 - Trochi cynnar (CS)
 - Trochi diweddarach (CA2), fel y tybir bod angen
 - Gloywi (Bl. 7), fel y tybir bod angen
 - Hwyrddyfodiaid – cymorth trochi wrth ddod i mewn i Sir Gaerfyrddin, fel y'i disgrifir uchod

Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg



- Bydd symud pob ysgol ar hyd y continwmm iaith yn cael ei gyflwyno gan:
- Ddatblygu'r cwricwlwm, wrth roi cyfleoedd i fwy o ddysgwyr gael mynediad i addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Fabwysiadu dull strategol o ymdrin â'r cynnig pynciau
- Gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn opsiynau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac, yn y pen draw, mwy o gynnydd mewn dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau yn 16 oed
- Gefnogi datblygiad pellach Partneriaeth Addysg Gymraeg (PAG). Mae PAG wedi esblygu fel partneriaeth rymus rhwng ein hysgolion categori 1 a 2A ôl-16, sydd bellach yn cael eu hystemyn i gwmpasu ein hysgolion 2B
- I weithio gyda chyflogwyr ac addysg uwch er hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a byd gwaith
- Cefnogi a hyrwyddo dwyieithrwydd ac amlieithrwydd fel sgiliau ar gyfer cyfleoedd gyrfu lleol, rhanbarthol a byd-eang
- Hyrwyddo gwell sgiliau ar gyfer defnydd gydol oes o'r Gymraeg (ymchwil i fodiwl Cymraeg Proffesiynol ar gyfer myfyrwyr ôl-16 a'i ddatblygu e.e. drwy Fagloriaeth Cymru)
- At hynny, rydym yn bwriadu trafod ffyrdd o recriwtio mwy o bobl ifanc i Safon Uwch/Safon Uwch Cymraeg, yn enwedig bechgyn.
- Datblygu a hyrwyddo'r cyfraniad y gall myfyrwyr hŷn mewn ysgolion 11-18 ei gyflawni fel delweddau rôl a mentorïaid

Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol

- Cynnal a chynyddu gwaith Siarter Iaith ar draws y sector Cynradd Uwchradd a chyflwyno Siarter Iaith i leoliadau cyn-ysgol.
- Ymestyn Siarter Iaith yr Ysgolion Uwchradd i bob ysgol uwchradd. Mae'r Siarter Iaith yn pwysleisio manteision atgyfnerthu caffael y Gymraeg drwy ddefnyddio ac ymarfer yr iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.
- Byddwn yn ymestyn hyfedredd iaith gweithwyr o fewn y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid, yn enwedig mewn ysgolion, er hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg
- Byddwn yn parhau i gefnogi ystod o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau anffurfiol (e.e. gwirfoddoli, Dug Caeredin, Clybiau Ieuenctid)
- Gan weithio gyda Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, yr Urdd, Mentrau Iaith a Cffl, byddwn yn mapio'r cyfleoedd presennol sydd ar gael i blant oedran ysgol ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Byddwn yn gweithio gyda cholegau Addysg Bellach i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar draws pob maes dysgu yn cael ei gynnig, gan gynnwys prentisiaethau.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr ac addysg uwch i hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer addysg bellach a'r byd gwaith.
- Marchnata diwrnodau iaith penodol h.y. Diwrnod Shwmae?
- Annog ysgolion i ddefnyddio Cymraeg Bob Dydd / Everyday Welsh.

Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

- Sicrhau bod darpariaeth deg ar gyfer pob dysgwr ag ADY ym mhob lleoliad a gwasanaeth.
- Parhau i ddatblygu system ddwyieithog i ymateb i'r agenda diwygio ADY
- Gweithio gyda'n Tîm Ysgolion/Unedau Arbennig a Chymorth Ymddygiadol i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog ymhellach.
- Datblygu sgiliau ein Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ymhellach i gefnogi dysgwyr.
- Mae'r holl wasanaethau cymorth ac ymyriadau ar gael yn ddwyieithog ac rydym yn ymrwymo i sicrhau bod yr holl adnoddau a ddatblygir yn Sir Gaerfyrddin ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Byddwn yn parhau i fonitro ceisiadau am gymorth arbenigol ac yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion, ADY a swyddogion cynhwysiant i nodi meysydd i ddatblygu ac ymgorffori'r datblygiadau hyn yn ein cynllun moderneiddio ysgolion.
- Byddwn yn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio a chefnogi dysgwyr ag ADY (sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn, Cynllun Datblygu Unigol, a Llais y Plentyn) gan sicrhau bod y dull ar gael yn ddwyieithog.
- Rydym yn cydnabod bod y ddarpariaeth ddwyieithog yn ein Hysgolion a'n Hunedau Arbennig yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth a chymorth dwyieithog.

Canlyniad 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- Parhau i ddefnyddio holiaduron sgiliau iaith i nodi lefelau sgiliau Cymraeg yr holl staff.
- Parhau i ddatblygu sgiliau a hyder gweithlu presennol yr ysgol
- Bydd rhaglen o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael i ddarparu'n hyblyg ar gyfer anghenion hyfforddi a nodwyd, i gefnogi gweithredu'r Cynllun.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid (rhanbarth, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Cyrsiau Sabothol Prifysgol y Drindod Dewi Sant) i gynorthwyo i gyflwyno rhaglenni hyfforddi gan ganolbwyntio'n benodol ar addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar beilota llwybrau i addysg ar gyfer graddedigion Cymraeg eu hiaith
- Parhau i weithio gyda phartneriaid ar recriwtio, datblygu a hyfforddi gweithlu'r ysgolion yn y dyfodol er mwyn gallu cyflawni'r Cynllun hwn a dyhead 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' Llywodraeth Cymru.
- Parhau i gefnogi a rhoi cyngor i Lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion ar benodiadau staff a datblygiad

